# HYWEL GETHIN (' Hywel Gethin of Celynnog,' yn ôl y llawysgrifau) (fl. c. 1485), bardd

**Enw:** Hywel Gethin
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Ray Looker

y dywedir ei fod yn r o Glynnog Fawr yn Sir Gaernarfon. Nid erys unrhyw fanylion amdano, ond y mae'n amlwg bod y dyddiadau a roir iddo gan Owen Jones, ' Gweirydd ap Rhys,' ' Myrddin Fardd,' a Wiliam Owen (sef 1570-1600), yn rhy ddiweddar, oherwydd ceir mewn llawysgrifau gywydd moliant a gyfansoddodd i bedwar mab Rhys ap Hywel ap Madog o Lanystumdwy, ac yr oedd y rheini'n byw yn niwedd y 15fed ganrif a dechrau'r 16eg (gweler J. E. Griffith, *Pedigrees*, 129, 170). Dywedir ei fod yn achydd, ond ni chafwyd unrhyw enghraifft o'i waith achyddol hyd yn hyn, nac ychwaith ddim rhagor o'i farddoniaeth.

## Awdur

**Ray Looker**

## Ffynonellau


Archifau LlGC: Llanstephan MS 123: Poetry (188)

*NLW MS* 5282 (43)

Swansea (N.L.W.) MS. 1 (74)

*Y Brython*, 1860, 233 (erthygl gan 'Eben Fardd')

*Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (1875)

'Gweirydd ap Rhys,' *Hanes Llenyddiaeth Gymreig, 1300–1650* (1885)

J. Jones ('Myrddin Fardd') *Enwogion Sir Gaernarfon* (1922)

William Owen Pughe, *The Cambrian Biography* (1803)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733250


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu